



Mrs Katharine Evan-Hughes  
Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion  
Cyngor Sir Penfro  
Neuadd y Sir  
Hwlfordd  
SA61 1TP

Y Canon Bryan Witt  
Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol  
Esgobaeth Dewi Sant  
Y Ficerdy  
San Clêr  
Sir Gaerfyrddin  
SA33 4EE

Ein Cyf: qA1197852

1 Medi 2016

Annwyl

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013 - CYNNIG I GAU  
YSGOL DEWI SANT, YSGOL BRO DEWI - YSGOL WIRFODDOL A GYNORTHWYIR  
GAN YR EGLWYS YNG NGHYMRU, AC YSGOL GYMUNEDOL SOLFACH A SEFYDLU  
YSGOL NEWYDD AR Y SAFLEOEDD PRESENNOL, A HONNO'N YSGOL  
WIRFODDOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU A GYNORTHWYIR AR GYFER PLANT 3-  
16 OED**

1. Mae Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru, wedi ystyried cynnig Cyngor Sir Penfro (yr Awdurdod Lleol) i gau Ysgol Dewi Sant, Ysgol Bro Dewi - ysgol wirfoddol a gynorthwyir gan yr eglwys yng Nghymru, ac Ysgol Gymunedol Solfach, a sefydlu ysgol newydd ar y safleoedd presennol, a honno'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer plant 3-16 oed. Mae'n rhaid i gynigion i ddod â'r ddarpariaeth chweched dosbarth i ben mewn ysgolion a gynhelir gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ("Deddf 2013"). Mae angen i gynigion sy'n gysylltiedig â chyflwyno neu ddod i ben â darpariaeth chweched dosbarth hefyd gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon. Penderfynodd y cyn-Weinidog fod y cynnig hwn yn gysylltiedig â'r cynnig i ddod â'r ddarpariaeth chweched dosbarth i ben yn Ysgol Bro Gwaun. Felly, mae'r cynigion wedi'u hystyried ar y cyd.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. Mae Gweinidogion Cymru'n cyflawni eu swyddogaethau i ad-drefnu ysgolion yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") a wnaed o dan Ddeddf 2013. Pan fydd angen i Weinidogion Cymru ystyried cynigion, rhaid iddynt benderfynu a ddylid eu cymeradwyo, eu gwrthod neu eu cymeradwyo gydag addasiadau.
3. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn imi ddweud ei bod wedi ystyried y ddogfen ymgynghori, yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, y gwrthwynebiadau statudol, yr adroddiad gwrthwynebu, cyngor gan Estyn, a gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol at ddibenion ystyried y ffactorau perthnasol a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion.
4. Wrth arfer ei phwerau o dan Adran 50 o Ddeddf 2013, mae'r Gweinidog wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig.
5. Mae paragraffau 1.3 i 1.14 o'r Cod yn amlinellu'r ffactorau y dylid eu hystyried gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau er mwyn penderfynu ar gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion. Mae'r ffactorau perthnasol wedi'u nodi isod, ac fe'u dilynir gan ddadansoddiad sy'n ystyried i ba raddau y mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod y ffactorau wedi'u "bodloni".

## **ANSAWDD A SAFONAU YM MAES ADDYSG**

### **Deilliannau (safonau a llesiant)**

6. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn ei bod yn rhesymol tybio y gallai'r cynigion helpu i wella deilliannau dysgwyr 3-16 oed, a hynny drwy gael un corff llywodraethu, canolbwyntio adnoddau ar wella deilliannau, lleihau'r trosglwyddo rhwng cyfnodau, cydweithio rhwng athrawon i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau, a phennu targedau cyffredin. Er nad yw'r un o'r ysgolion yn uchel iawn eu perfformiad ar hyn o bryd, mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod yna ddisgwyliad rhesymol y gallent wella hyn cyn bod y cynnig yn cael ei weithredu, a hynny drwy gefnogaeth a chael eu monitro. Hefyd, gallai mabwysiadu arferion gorau helpu i sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion pan fyddai'r ysgol newydd yn cael ei sefydlu. Mae'n nodi sylwadau Estyn bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg yn yr ardal o leiaf, a bod posibilrwydd y gallai'r cynnig helpu i wella deilliannau. Yn ôl adroddiadau arolygu Estyn, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol yn gymharol dda, ond mae lle i'w gwella. Gellir disgwyl yn rhesymol y byddai'r ysgol newydd yn gallu adeiladu ar yr arfer da presennol.
7. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn ei bod yn rhesymol tybio y bydd yr amrywiaeth ehangach o gyrsiau ôl 16 a'r dosbarthiadau mwy, hyfyw ac ysbrydoledig a fydd ar gael yn y ganolfan chweched dosbarth arfaethedig yng Ngholeg Sir Benfro, o fudd i ddysgwyr ôl-16 oed, ac y byddent yn cefnogi deilliannau da ar gyfer cyfnod allweddol 5. Mae'n nodi bod sylwadau a ddarparwyd gan Estyn yn ystod yr ymgynghoriad yn dangos eu bod o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi cyflwyno achos cryf o blaid ad-drefnu'r ddarpariaeth chweched dosbarth.
8. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn nad oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu na fydd safon ac ansawdd addysg 11-16 oed yn yr ysgol 3-16 newydd gystal heb chweched dosbarth. Bydd yr ysgol yn gallu canolbwyntio ar godi safonau yn yr holl gyfnodau allweddol hyd at gyfnod allweddol 4 yn sgil cael gwared ar gyfnod allweddol 5.

## **Y ddarpariaeth (profiadau dysgu, addysgu, gofal, cymorth a chyfarwyddyd, a'r amgylchedd dysgu)**

9. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y byddai cau tair ysgol ac agor un newydd yn golygu bod angen creu strwythur staff newydd a chynnal proses recriwtio. Er y gallai'r gweithlu presennol ddisgwyl cael eu hystyried ar gyfer swyddi, byddai'r cynnig yn gyfle i ddewis y staff gorau sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau perthnasol i wasanaethu'r ysgol newydd, a darparu cwricwlwm eang mor effeithiol â phosibl. Mae'r perfformiad diweddar o ran addysgu yn gymysg ar draws y tair ysgol, ac felly gellir tybio y bydd y ddarpariaeth o ran addysgu a phrofiadau dysgu yr un mor dda o leiaf os caiff y cynnig ei weithredu, gan y byddai'r corff llywodraeth'n gallu ystyried addasrwydd yr holl staff.
10. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn ei bod yn rhesymol tybio y bydd profiadau dysgu disgyblion ôl-16 oed yn gwella drwy greu'r ganolfan chweched dosbarth a fydd yn cynnig nifer gynyddol o opsiynau mewn un lleoliad.
11. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod rhai pryderon wedi'u codi yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn â'r posibilrwydd o ddiffyg gofal bugeiliol yn y ganolfan chweched dosbarth o'i gymharu â'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn Ysgol Dewi Sant. Fodd bynnag, fe'i sicrhawyd o wybod pan gynhaliodd Estyn arolygiad o Goleg Sir Benfro fod gan y coleg strategaeth iechyd a llesiant gynhwysfawr, gan gynnwys ystod eang o gymorth a gwasanaethau a phartneriaethau amlasiantaeth i gefnogi'r strategaeth. Mae o'r farn ei bod yn rhesymol tybio y bydd gofal a chymorth yn cael eu cynnig i'r ganolfan chweched dosbarth, ac mae'n fodlon bod yr ymatebion i'r mater hwn a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad yn dangos eu bod wedi ystyried hyn.
12. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn gwella'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer disgyblion ôl-16 a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan ystyried y buddsoddiad yn adeiladau'r ysgol a'r coleg.

## **Arweinyddiaeth a rheolaeth (arwain, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)**

13. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd y cynnig i gyfuno'r ddarpariaeth mewn un ysgol yn gyfle i greu tîm mwy o uwch-reolwyr sy'n cynrychioli pob cyfnod o addysg orfodol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn y bydd cyfle i'r ysgolion presennol wella o ran arweinyddiaeth a rheolaeth, a bydd modd dewis staff i arwain yr ysgol newydd o blith y rheini sydd yn yr ysgolion eisoes neu thu hwnt. Nid oes rheswm i gredu y bydd effaith andwyol ar arweinyddiaeth.

## **YR ANGEN AM LEOEDD A'R EFFAITH AR HYGARCHEDD YSGOLION**

### **A fydd y ddarpariaeth ysgol amgen ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, man lleiaf, ar gyfer y nifer bresennol o ddisgyblion yn yr ysgol a'r niferoedd a ragwelir**

14. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd digon o gapasiti ar gyfer disgyblion ac mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau, nad ydynt wedi'u hariannu eto, i leihau'r capasiti er mwyn gweddu'n well i'r nifer ddisgwyliedig o ddisgyblion.

**Gan gyfeirio at natur yr ysgolion sy'n destun cynigion, a yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un:**  
**a) categori iaith fel yr amlinellir yn "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg", dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru Rhif: 023/2007(dogfen wybodaeth Rhif: 023/2007);**

**b) (os yn berthnasol) cymeriad crefyddol dynodedig**

15. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd y ddarpariaeth wedi'i hadrefnu yn darparu addysg o'r un categori ieithyddol. Bydd y cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion â chymeriad crefyddol.

**Natur siwrneiau i ddarpariaeth amgen a'r amseroedd teithio i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion AAA, yn enwedig a fydd gan ddisgyblion cynradd deithiau unffordd o fwy na 45 munud ac a fydd gan ddisgyblion uwchradd deithiau unffordd o fwy na awr**

16. Bydd y cynnig i sefydlu ysgol 3-16 oed yn cael ychydig iawn o effaith ar ddisgyblion o oed ysgol, neu ddim effaith o gwbl, oni bai eu bod yn dewis mynd i ysgol wahanol. Bydd gan ddisgyblion ôl-16 daith gymharol fyr i Goleg Penfro yn Hwlfordd.

**A fydd y cynigion yn hwyluso mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010**

17. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd yr awdurdod lleol yn gwneud mân waith i rai adeiladau fel rhan o'r cynnig, a ariennir gan gyllid arfaethedig o'r rhaglen ar gyfer Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Mae hefyd yn bwriadu gwella hygyrchedd, fel y gwelwyd yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol.

**Lle cynigir agor ysgol newydd, cynyddu capasiti neu ehangu ystod oedran;**

**Bod tystiolaeth o angen/galw am leoedd ychwanegol yn yr ardal ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, gan gyfeirio at gymeriad crefyddol dynodedig yr ysgol neu'r ysgol arfaethedig;**

18. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod cymeriad crefyddol arfaethedig yr ysgol newydd wedi bod yn bwnc trafod dadleuol ymhlith y rheini a wrthwynebodd y cynnig, ond roedd nifer y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn gymharol fach. Nododd, serch hynny, fod y gefnogaeth ar gyfer y grŵp ymgyrchu "Ysgolion ar gyfer y dyfodol" yn dystiolaeth bod galw am ysgol â chymeriad crefyddol. Mewn ymateb i ymgynghoriad cyntaf yr awdurdod lleol yn 2015, hyrwyddodd y grŵp hwn opsiwn amgen o sefydlu ysgol wirfoddol yr eglwys yng Nghymru a gynorthwyir ar gyfer plant 3-16 oed i wasanaethu ardal Tyddewi. Cyflwynwyd 500 ymateb o blaid y cynllun a gyhoeddwyd gan y grŵp ymgyrchu, ac o ystyried natur gymharol wledig yr ardal, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon bod hyn yn dystiolaeth resymol o'r galw am ysgol o'r math hon. Mae hefyd o'r farn bod ymateb yr awdurdod lleol i'r gwrthwynebwyr sy'n honni bod y cynnig yn lleihau'r dewis o ysgolion cymunedol yn rhesymol. Gall y rheini sy'n ffafrio ysgol gymunedol ddewis o blith ysgolion cymunedol yn y Garn neu yn Abergwaun neu Hwlfordd.

19. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd capasiti digonol ar gyfer disgyblion ac mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau i leihau'r capasiti er mwyn gweddu'n well i'r nifer a ddisgwylir o ran disgyblion.

20. Mae'n nodi hefyd, o ran teithiau i'r ysgol, y bydd y cynnig yn cael ychydig iawn o effaith ar ddisgyblion o oed ysgol, neu ddim effaith o gwbl, oni bai eu bod yn dewis mynd i ysgol wahanol. Bydd gan ddisgyblion ôl-16 daith gymharol fyr i Goleg Penfro yn Hwlfordd.

## **SICRHAU ADNODDAU ADDYSG A GOBLYGIADAU ARIANNOL ERAILL**

### **A fydd y cynigion yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddsbarthu'n decach ac yn fwy cyfartal rhwng ysgolion prif ffrwd yn ardal yr awdurdod lleol**

21. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol wedi nodi arbedion o ganlyniad i'r cynnig. Bydd rhywfaint o arbedion o ran refeniw o gyfuno'r ysgolion presennol, a bydd cyllid yn cael ei ddsbarthu'n decach ac yn fwy cyfartal. Bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r arbedion er lles y gwasanaeth addysg cyfan. Yn ogystal, dylai'r cynigion sicrhau nad yw cyllid ar gyfer disgyblion o oed ysgol yn cael ei wario ar ddarpariaeth ôl-16.

### **Pa effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar nifer y lleoedd gwag yn y ardal**

22. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd y cynigion yn cael effaith fach ar leihau nifer y lleoedd gwag gan y byddai gwaith ailfodelu'n cael ei wneud er mwyn lleihau capasiti. Fodd bynnag, mae'r union nifer yn anodd i'w bennu ar hyn o bryd. Serch hynny, bydd hyn ynghyd â'r cynigion ar gyfer ardal Abergwaun yn golygu gostyngiad cyffrediniol o fwy na 500 lle.

### **A yw'r cynigion yn rhan o rhaglen fuddsoddi'r awdurdod lleol ar gyfer Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, ac yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, ac at wella'r ffordd y caiff ystâd yr ysgolion ei rheoli'n strategol, drwy gael gwared ar y pentwr gwaith cynnal a chadw sy'n cronni ac ar adeiladau'r ysgol sy'n aneffeithlon neu mewn cyflwr gwael.**

23. Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cais am gyllid i wella cyflwr ac addasrwydd yr adeiladau hynny sydd angen gwaith o'r fath. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r gwrthwynebwyr sydd wedi awgrymu bod yr awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull tameidiog ar gyfer datblygu'r gwasanaeth addysg. Mae'n ymwybodol o ystyriaeth faith yr awdurdod lleol o'r ardal gyfan, a'r diwygiadau i gynlluniau o ganlyniad i ymgynghori. Gallai'r awdurdod lleol fod wedi cael effaith fwy ar reolaeth strategol yr ystâd drwy gael gwared ar adeilad ysgol gynradd Solfach, ond penderfynodd beidio â gwneud hynny yn dilyn y cyfnod ymgynghori. Er bod yr awdurdod lleol wedi gwrthod honiadau gan y gwrthwynebwyr y gallai adeilad ysgol Solfach gael ei waredu, mater i benderfynwyr yn y dyfodol fydd gwneud newidiadau o'r fath yn amodol ar unrhyw weithdrefnau statudol perthnasol. Fodd bynnag, mae parodrwydd yr awdurdod lleol i fuddsoddi yn yr adeilad drwy'r raglen gyfalaf ar gyfer Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> ganrif, yn dangos ei fod wedi ymrwymo i'w gadw.

### **Costau rheolaidd y cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, man lleiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael**

24. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol yn amcangyfrif y bydd y cynnig yn arwain at arbedion o tua £134,000 heb gostau cludiant.

### **Costau teithio ychwanegol o ganlyniad i'r cynigion**

25. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol wedi awgrymu y bydd cynnydd mewn costau teithio ond y byddai'r arbedion o ran refeniw yn fwy na digon i dalu'r costau hyn.

### **Costau cyfalaf y cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael**

26. Amcangyfrifwyd mai £4 miliwn yw cyfanswm cost y gwaith i Ysgol Dewi Sant. Bydd Esgobaeth Tyddewi'n darparu £0.60 miliwn, ac mae wedi cyflwyno cais i raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ar gyfer y £3.4 miliwn sy'n weddill.
27. Amcangyfrifwyd mai £6.6 miliwn yw cyfanswm cost y gwaith yng Ngholeg Sir Benfro i ddarparu Canolfan Chweched Dosbarth, ac mae'r Coleg wedi cyflwyno cais i raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif am y £3.3 miliwn sy'n weddill.

### **Swm unrhyw arbedion net arfaethedig**

28. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol wedi amcangyfrif y bydd arbedion refeniw o tua £134,000 heb gostau teithio.

### **A fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffyg cyllidebol heb y cynigion**

29. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr ysgolion wedi cario arian ymlaen yn y blynyddoedd diwethaf. Nid oes perygl dybryd y byddai'r ysgolion yn wynebu diffyg cyllidebol.

### **A gaiff unrhyw arbedion o ran costau rheolaidd eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol;**

30. Bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio arbedion ar gyfer y gwasanaeth addysgol.

### **A fydd yr enillion (derbyniadau cyfalaf) a ddaw yn sgil gwerthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynigion neu i gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd mewn ysgolion yn effeithiol.**

31. Ni fydd unrhyw safleoedd diangen.

## **FFACTORAU CYFFREDINOL ERAILL**

### **Yr effaith a gaiff y cynigion ar gyrraeddad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd**

32. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn croesawu'r strategaethau y mae'r awdurdod lleol wedi'u llunio a allai wella cyrraeddad plant o gefndiroedd difreintiedig, megis clybiau brechwast a chlybiau gwaith cartref a mwy o fynediad at TG. Mae'r awdurdod o'r farn y byddai'r rhain yn fwy fforddiadwy mewn ysgol 3-16 oed. Hefyd, gallai'r gwell dewis o gyrsiau ôl-16 helpu i gyflawni dyheadau pob disgybl, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd llai cefnog.

## **Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

33. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi mai effeithiau positif yn unig ar anabledd a chred a nodwyd yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Er nad yw'r gwrthwynebwyr yn ffafrio sefydlu ysgol wirfoddol a gynorthwyr gan yr Eglwys yng Nghymru, roedd cefnogaeth sylweddol ar gyfer cynllun yn cynnwys y datblygiad hwn. Byddai ysgolion eraill heb gymeriad crefyddol ar gael i rieni.

### **A yw'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir.**

34. Am fod un o'r ysgolion dan sylw yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr, bydd angen i'r awdurdod lleol ddarparu tir ar gyfer yr ysgol newydd a sicrhau bod materion tir yn cael eu hystyried. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol wedi cydnabod hyn, ac wedi cadarnhau ei gyfrifoldebau. Ni fydd angen gwaredu'r tir presennol lle lleolir Ysgol Bro Dewi, gan y byddai'n rhan o safle'r ysgol newydd.

## **FFACTORAU PENODOL WRTH YSTYRIED CYNIGION I GAU YSGOLION**

**A ellir ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu'r rhesymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn; a ellid ystyried posibiliadau amgen heblaw cau ysgolion, megis clystyru, cydweithio neu ffedereiddio ag ysgolion eraill (gan ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cysylltiadau TG rhwng safleoedd ysgolion) neu'r rhesymau dros beidio â dewis un o'r rhain fel opsiwn amgen.**

35. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn na wnaeth yr awdurdod lleol roi ystyriaeth glir i opsiwn ffedereiddio. Serch hynny, roedd wedi ystyried opsiwn arall sef ysgol â mwy nag un safle, sy'n berthnasol i gau ysgolion mewn ardaloedd mwy gwledig; ac roedd wedi seilio'r cynigion ar yr opsiwn hwn. Dylid nodi nad yw rheoliad 4 o Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 yn caniatáu i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion cymunedol gael eu ffedereiddio. Mae'r awdurdod lleol yn ceisio bwrw ymlaen â'r opsiwn o ysgol â mwy nag un safle drwy'r cynigion hyn.

**A ellid ystyried y posibiliadau ar gyfer gwneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol; effaith gyffredinol cau ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned), yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu'r rheini sy'n cael cyllid fel rhan o weithgaredd adfywio.**

36. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi na fydd unrhyw gyfleusterau'n cael eu colli gan y bydd pob ysgol yn cael ei chadw, a gellir gwella'r cyfleusterau yn adeiladau'r ysgol uwchradd. Mae bwriad hefyd i neilltuo lle yn un o'r ysgolion ar gyfer grŵp chwarae cymunedol.

**Sut y gellid helpu rhieni a disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig (e.e. sut bydd disgyblion, yn enwedig disgyblion llai breintiedig, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol).**

37. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn na ddylai fod unrhyw anhawster o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, gan y bydd pob safle yn cael ei gadw.

## **FFACTORAU PENODOL I'W HYSTYRIED YN ACHOS CYNIGION I AD-DREFNU YSGOLION UWCHRADD NEU YCHWANEGU/DILEU CHWECHED DOSBARTH**

**A fydd y cynigion yn gwella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiant unigolion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond yn iau na 19 oed**

38. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol sydd o'r farn y bydd y cynnig yn gwella cyflawniadau addysgol neu hyfforddiant disgyblion ôl-16, gan fod darpariaeth chweched dosbarth mwy o faint yn cynnig mwy o ddewis o gyrsiau ac, yn eu barn nhw, yn arwain at lefelau cyrhaeddiad uwch.

**A fydd y cynigion yn cyfrannu at amrywiaeth briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol, a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr, sydd wedi'u hanelu at disgyblion o bob gallu, a hefyd yn cynnal cyrsiau TGAU, Safon UG/Uwch a chyrsiau sefydledig eraill, yn unol â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed.**

39. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol bod Ysgol Dewi Sant yn annhebygol o gynnal yr amrywiaeth a'r ansawdd o gyrsiau ôl-16 sydd eu hangen i fodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 oherwydd y nifer isel o ddisgyblion ar y gofrestr. Er i Estyn ganfod bod yr ysgolion hynny sy'n bartneriaid fel rhan o Ffederasiwn Gogledd Sir Benfro yn gallu cynnig nifer addas ac amrywiol o opsiynau ôl-16 i fodloni'r gofynion statudol, prin iawn oedd nifer y disgyblion a oedd yn dechrau cyrsiau a gynigiwyd mewn sefydliadau eraill.

40. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon y bydd Coleg Sir Benfro yn darparu'r amrywiaeth a'r ansawdd o gyrsiau sydd eu hangen i fodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

**A yw'r cynigion yn debygol o gynyddu nifer y disgyblion sy'n parhau i ddysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion a chostau cludiant i'r dysgwr ac eraill, a ellir fforddio'r costau hynny, ac a fydd dysgwyr yn barod i deithio**

41. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod cynyddu nifer y cyrsiau yn debygol o gynyddu nifer y disgyblion sydd am ymgymryd â chyrsiau dysgu ar ôl oedran ysgol gorfodol. Nid oes unrhyw reswm gan Ysgrifennydd y Cabinet i anghytuno â'r awdurdod lleol, gan y bydd y cynnig yn darparu mwy o gyfleoedd a dewisiadau. Mae'n bosibl y bydd polisi Coleg Sir Benfro i ddarparu trafndiaeth am ddim i fyfyrwyr amser llawn yn lleihau amharodrwydd rhai disgyblion ôl-16 oed i ymgymryd â chyrsiau Safon Uwch a rhai galwedigaethol mewn lleoliad sydd gryn bellter o'u hysgol. Gallai'r bwriad i gynnig rhai cyrsiau dysgu o bell ar safleoedd presennol yr ysgol annog mwy o ddisgyblion i wneud cyrsiau ôl-16 oed hefyd. Dylid sicrhau bod disgyblion yn cael eu hannog i ymgymryd â chyrsiau ôl-16 tra bo'r ddarpariaeth hon ar gael.

**I ba raddau y mae'r cynigion yn cyfrannu at yr agenda 14-19, gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 lleol a phartneriaethau dysgu**

42. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn ei bod yn debygol y bydd y cynnig yn cyfrannu at yr agenda 14-19 oed drwy wella profiad addysgol myfyrwyr ôl-16 oed. Er bod yr ysgolion yng nghanolbarth a gogledd Sir Benfro yn cydweithredu â'i gilydd ac â



Choleg Sir Benfro ar hyn o bryd i ddarparu cyrsiau safon uwch a rhai galwedigaethol, prin iawn yw nifer y disgyblion sy'n manteisio i'r eithaf ar y trefniant hwn i astudio cyrsiau mewn ysgolion eraill. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol nad yw'r chweched dosbarth bach yn Ysgol Bro Gwaun ac yn Ysgol Dewi Sant yn gynaliadwy, ac y bydd yr hyn sydd i bob pwrpas yn golygu uno'r ddau chweched dosbarth yng Nghanolfan Chweched Dosbarth Coleg Sir Benfro yn creu darpariaeth mwy ymarferol a chynaliadwy ar gyfer dysgwyr ôl-16 oed.

### **Effaith y cynigion ar ddarpariaeth 11-16 oed mewn ysgolion**

43. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol y gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth 11-16 oed yn yr ysgol newydd, gan na fydd y gyllideb ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4 o hynny allan yn ariannu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 oed. Gallai hyn arwain at ddsbarthiadau llai, gwell dewis o gyrsiau a mwy o gymorth ar gyfer llythrennedd. Fodd bynnag, gallai cael gwared ar y chweched dosbarth effeithio ar hyfywedd hirdymor yr ysgol drwy leihau nifer y disgyblion. Er y bydd nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol newydd yn cynnwys llai o ddisgyblion uwchradd, gallai'r cynnydd bach yn nalgylch yr ysgol gynyddu nifer y plant fydd yn gallu cofrestru â'r ysgol maes o law.

### **Sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu darpariaeth ôl-16 oed safonol, gan gynnwys chwech dosbarth mewn ysgolion, sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddi preifat**

44. Yr hyn sy'n gyffredin i'r cynigion i ddod â'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Bro Gwaun i ben, cau Ysgol Dewi Sant, Ysgol Bro Dewi ac Ysgol Gymunedol Solfach, a sefydlu ysgol i ddisgyblion 3-16 oed, yw'r ffaith y cynigir y byddai Coleg Sir Benfro yn cynnig yr holl gyrsiau Safon Uwch a rhai galwedigaethol yn y dyfodol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â'r awdurdod lleol o ran po fwyaf y nifer o fyfyrwyr sy'n mynd i'r Ganolfan Chweched Dosbarth, mwyaf y bydd yn hyfyw ac yn gynaliadwy. Hefyd, i gael Canolfan Chweched Dosbarth sy'n hyfyw ochr yn ochr â darpariaeth colegau, byddai angen uno'r chweched dosbarth yn Abergwaun a Thyddewi o leiaf.

### **Sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 lleol a'r ardal ehangach, neu'r gwaith i'w wella, a hyrwyddo mynediad i'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg ôl-16**

45. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw ddisgyblion o'r ysgol Saesneg 3-16 oed newydd yn gofyn am ddarpariaeth Gymraeg ôl-16.

### **I ba raddau y bydd y cynigion yn cynnig manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â'r sefyllfa bresennol ac opsiynau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16**

46. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi er bod y gwrthwynebwyr wedi cwestiynu penderfyniad yr awdurdod lleol i ddisytyru argymhelliad annibynnol i gau Ysgol Dewi Sant, mae'r awdurdod lleol wedi gwadu hyn. Yn ôl yr awdurdod lleol, nid oedd hyn yn un o argymhellion yr adroddiad annibynnol, ac fe wnaeth y Cyngor wrthod cam o'r fath yn sgil pwysau cyhoeddus yn dilyn ymgynghoriad dilynol ar gau'r ysgol. Prin iawn yw'r dystiolaeth, neu nid oes tystiolaeth o gwbl, bod y cydweithredu presennol yn sicrhau bod disgyblion yn cael dewis eang o wahanol bynciau, gan gynnwys opsiynau galwedigaethol. Fel rhan o'r cynnig, byddai myfyrwyr Coleg Sir

Benfro yn cael cyfleusterau newydd a gwell ac yn gallu dewis o ystod eang o gyrsiau Safon Uwch a rhai galwedigaethol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon y byddai myfyrwyr ôl-16 oed yn elwa ar y cyfleusterau gwell, ac yn gallu astudio ystod ehangach o gyrsiau.

47. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi mai'r bwriad yw y byddai myfyrwyr ôl-16 yn gallu defnyddio'r cyfleusterau yn Ysgol Dewi Sant o hyd, gan gynnwys yr ystafelloedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, er mwyn dysgu o bell, ac y gallai fod yn bosibl cyflwyno rhywfaint o'r cwricwlwm Safon Uwch o Ysgol Dewi Sant.

### **Sut y gallai'r cynigion effeithio ar y ddarpariaeth ddewisol o ran cludiant y gallai awdurdod lleol ei chynnig i ddysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol**

48. Byddai angen i'r disgyblion ôl-16 oed yn Ysgol Dewi Sant ar hyn o bryd deithio i ganolfan chweched dosbarth Coleg Sir Benfro yn y dyfodol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod Coleg Sir Benfro yn darparu trafndiaeth am ddim i fyfyrwyr amser llawn. Byddai'r myfyrwyr hynny sydd angen trafndiaeth i'r Ganolfan Chweched Dosbarth yn gallu defnyddio gwasanaeth bysiau penodedig Coleg Sir Benfro.

### **FFACTORAU PENODOL I'W HYSTYRIED YN ACHOS CYNIGION I GYNYDDU'R DARPARIAETH MEWN YSGOLION GWIRFODDOL NEU SEFYDLU YSGOL WIRFODDOL NEWYDD**

49. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod yr awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn ysgwyddo ei gyfrifoldeb o ran darparu safleoedd ac yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
50. Nid oes corff llywodraethu yn bodoli ar hyn o bryd ond mae'r awdurdod esgobaethol wedi nodi y bydd yn cefnogi'r ysgol ac mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried ei bod yn rhesymol tybio y byddant yn parhau i wneud hynny.

### **FFACTORAU YCHWANEGOL I'W HYSTYRIED WRTH GYMERADWYO NEU BENDERFYNU AR GYNIGION YN YMWNEUD Â THREFNIADAETH YSGOLION**

#### **A oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill**

51. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried bod y cynigion i ddod â'r ddarpariaeth chweched dosbarth i ben yn Ysgol Bro Gwaun, cau Ysgol Dewi Sant, Ysgol Bro Dewi, Ysgol Gymunedol Solfach, a sefydlu ysgol 3-16 oed, yn gysylltiedig am y rhesymau a amlinellir yn y paragraffau uchod. Felly, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ystyried y cynigion hyn gyda'i gilydd.

#### **A yw'r ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â'r Cod**

52. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â'r Cod.
53. Er bod y gwrthwynebwyr sy'n cynrychioli Ysgol Gynradd Solfach yn honni na chafwyd trafodaeth o unrhyw fath â nhw am gau'r ysgol, roedd hyn wedi'i nodi'n glir yn y ddogfen ymgynghori. Yn ogystal, o ganlyniad i'r sylwadau cryf a wnaed o blaid ei gadw, penderfynodd yr awdurdod lleol gadw'r safle a'i gynnwys yn yr ysgol aml safle yn hytrach na'i waredu. Am yr un rheswm, mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r

farn nad yw'r rheini a wrthwynebodd ar y sail bod yr awdurdod lleol heb ystyried opsiynau eraill yn gallu profi hyn, am fod yr awdurdod lleol wedi dewis cadw'r adeiladau'r ysgol mewn ymateb i sylwadau.

54. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon bod yr asesiadau angenrheidiol o'r effaith wedi'u cynnal a'u bod ar gael i'r cyhoedd. Mae'n cytuno â'r awdurdod lleol na ddylai'r cynigion gael unrhyw effeithiau andwyol ar grwpiau â nodweddion a warchodir.

### **A yw'r cynnig wedi'i gyhoeddi yn unol â'r Cod, ac a yw'r hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol**

55. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon bod yr awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofynion cyhoeddi.

### **Ystyried y gwrthwynebiadau ac ymatebion yr awdurdod lleol i'r gwrthwynebiadau**

56. Mae Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi ymateb yn rhesymol i'r gwrthwynebiadau. Roedd y cynnig a gyhoeddwyd yn lleddfu rhai o'r pryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad am fod yr awdurdod lleol wedi ymrwymo i fuddsoddi yn safle Solfach. Mae'r pwyntiau a godwyd gan y gwrthwynebwyr wedi'u gwerthuso yn y paragraffau blaenorol.

57. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig ar sail y ffaith y bydd:

- yn debygol o gynnal neu wella safon y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion yn ardal Ysgol Dewi Sant drwy ddarparu ysgol fwy cynaliadwy gyda chorff llywodraethu mwy o faint, staff sy'n gallu darparu cwricwlwm eang a chytbwys yn well;
- yn ffordd effeithiol o reoli'r addysg yn ardal Tyddewi, gan leihau dyblygu a chymhlethdod a hwyluso trosglwyddo didrafferth;
- yn cynnig dewis ehangach o ran darpariaeth ôl-16 oed yng Nghanolfan Chweched Dosbarth Coleg Sir Benfro i'r bobl ifanc a fyddai wedi mynd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Dewi Sant;
- yn cyfrannu at nodau Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 drwy gryfhau darpariaeth ôl-16 gynaliadwy;
- yn lleihau nifer y lleoedd ysgol a darparu adeiladau ysgol gwell.

58. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod bwriad i weithredu'r cynnig hwn o 1 Medi 2018 ymlaen. Pan fydd y cynnig hwn wedi'i roi ar waith, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu sefydlu a bod cyn lleied o aflonyddwch ag y bo modd wrth drosglwyddo'r disgyblion. Dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion pan fydd y cynnig hwn wedi'i roi mewn grym.

59. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weithredwr Cyngor Sir Penfro a Chyfarwyddwr Addysg Esgobaethol Esgobaeth Tyddewi.

Yn gywir

**STEVE VINCENT**

**DIRPRWY GYFARWYDDWR:YR IS-ADRAN EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION**